

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod:	11 Medi, 2012
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Cyng. Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant
Awdur yr Adroddiad:	Y Cyfarwyddwr Moderneiddio a Lles
Teitl:	Ymateb y Cyngor i Adolygiadau o Wasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Ar 19 Gorffennaf, 2012 ystyriodd Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr ganfyddiadau ac argymhellion saith adolygiad allweddol o wasanaethau iechyd. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ffurfiol, sy'n cwmpasu argymhellion nifer o adolygiadau, ar 20 Awst am ymgynghoriad 10 wythnos, sy'n dod i ben ar 28 Hydref. Mae'r adroddiad hwn yn gosod ymateb i'r ymgynghoriad drafft a baratowyd gan Weithgor Arbennig o Bartneriaethau Craffu ar gyfer sylwadau ac ystyriaeth bellach y Cyngor. Bydd cynrychiolwyr Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn mynychu Cyngor llawn, felly mae'n darparu dogfen frifio cefndir i'r Cyngor hefyd. Bwriedir dod â'r ymateb gorffenedig i'r ymgynghoriad i'r Cyngor ar 9 Hydref.

2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Galluogi'r Cyngor i ffurfio'r ymateb ffurfiol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn cyfrannu at y broses ymgynghori.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Dros y 2 flynedd diwethaf, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynnal adolygiadau o saith maes allweddol y gwasanaeth iechyd, sef

Gwasanaethau Ardaloedd Lleol a Chymunedol
Gwasanaethau pediatrig
Y Gwasanaethau Mamolaeth, Gynaecoleg a Newydd-anedig
Llawfeddygaeth Gyffredinol Annethol
Trawma ac Orthopaedeg
Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
Gwasanaethau Fasgwlaidd

4.2 Adroddwyd ar ganlyniad yr adolygiadau hyn "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid: adroddiad ar gynigion newid gwasanaethau" i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 19 Gorffennaf, 2012. Mae copi llawn o'r

adroddiad ar gael ar wefan Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o bapurau ffurfiol y Bwrdd.

- 4.3 Cynhaliwyd yr adolygiadau, dan arweiniad clinigwyr, oherwydd bod tystiolaeth yn dangos nad yw cynnal pethau fel y maen nhw er lles poblogaeth y GIG cyfan yng Nghymru. Mae'r rhesymau manwl dros gynnig newidiadau i'r gwasanaethau'n cynnwys yr angen i ganolbwyntio mwy ar atal, nid yw'r modelau gwasanaeth presennol yn gynaliadwy o ran materion staffio, effaith arbenigedd cynyddol, tueddiadau demograffig a'r ffaith bod costau'n codi, wrth i arian y sector cyhoeddus ostwng.
- 4.4 Mae "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru'n Newid" yn gosod gweledigaeth lle bydd y boblogaeth leol yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan fyw yn eu cartrefi eu hunain, gyda chefnogaeth ystod fwy o wasanaethau sylfaenol a chymunedol. Bydd pob un o'r 3 ysbyty aciwt yng Ngogledd Cymru'n parhau i fodoli a chwarae rhan bwysig yn y system gofal iechyd. Fodd bynnag, mae angen trefnu'r gwasanaethau aciwt mewn ffordd lle gellir cyflwyno'r gofal iechyd aciwt cyffredinol a hynod arbenigol yn ddiogel, gan ddarparu canlyniadau da. Mae hyn yn debygol o olygu na fydd pob arbenigedd ar gael ar bob un o'r safleoedd aciwt ond byddai'n parhau i fod ar gael o fewn pellter rhesymol.
- 4.5 Cafwyd cysylltiad cyhoeddus sylweddol wrth i'r adolygiadau gael eu cynnal.
- 4.6 Ceir consensws ar draws pob maes gwasanaeth am yr angen i ganolbwyntio mwy ar hybu ac atal iechyd, gan weithio gyda'r gwasanaethau cymunedol. O ran y gwasanaethau aciwt, mae'r papurau manwl yn y ddogfen lawn yn dangos dadl sylweddol o ran y cydbwysedd sydd i'w daro rhwng manteision mynediad/diogelwch cyflwyno gwasanaethau o'r tri safle yn erbyn y manteision staffio/más critigol/arbenigedd o gyflwyno o ddau safle neu lai.
- 4.7 Mae'n amlwg yn eithriadol o gymhleth amcangyfrif costau gweithredu'r newidiadau a gynigir. Fodd bynnag, gosodwyd y gwaith hyd yma a'r tybiaethau a wnaed yn hyn yn y ddogfen lawn. Cyfrifir i'r gost refeniw ychwanegol a ragwelir yn y pen draw fod oddeutu £15m y flwyddyn, gyda goblygiadau cyfalaf ar gyfer ailddatblygiadau yn y gwasanaethau ardaloedd lleol a chymunedol yn cael eu hasesu i fod oddeutu £41m. Nid yw hyn yn cynnwys costau ychwanegol ar gyfer cludiant, yn benodol y rhai a fyddai'n cwmpo ar Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Eir i'r afael yn gryno hefyd â sut gellir cyflwyno'r buddsoddiad ychwanegol yng nghyd-destun diffyg presennol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 4.8 Ar 19 Gorffennaf, ystyriodd y Bwrdd argymhellion yr adolygiadau. Nid oes cofnodion ffurfiol ar gael eto. Fodd bynnag, deallir bod y Bwrdd wedi derbyn y cynigion ar gyfer newid. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i ganolbwyntio mwy ar hybu iechyd a'r gwasanaethau cymunedol. Roedd yn cynnwys hefyd cefnogi parhad y gwasanaethau mamolaeth cleifion preswyl, gwasanaethau paediatreg, meddygaeth gyffredinol annethol, gwasanaethau fasnwlaid arferol a gwasanaethau trawma ac orthopaedeg ar safleoedd y 3 Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, ond bydd y gwasanaethau a gyflwynir yn newid a bydd rhai gwasanaethau arbenigol yn cael eu cyflwyno o lai o safleoedd. Bu'n rhaid i'r Bwrdd benderfynu hefyd a oedd y cynigion yn cyfansoddi "newid

sylweddol". Os oeddent, byddai angen i ymgynghoriad cyhoeddus ddilyn. Penderfynodd y Bwrdd fod angen i'r newidiadau canlynol i wasanaethau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol:

Gwasanaethau Ardaloedd Lleol a Chymunedol
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
Gwasanaethau Newydd-anedig
Gwasanaethau Fasgwlaidd

Yn dilyn hynny, datblygwyd dogfen ymgynghori ffurfiol ac mae'n destun ymgynghoriad tan 28 Hydref. Mae hon ynghlwm yn Atodiad I.

4.9 Mae'r prif oblygiadau ar gyfer cyfleusterau iechyd Sir Ddinbych o'r adolygiadau o wasanaethau fel a ganlyn:

- bydd y prif wasanaethau iechyd yn parhau i gael eu cyflawni yn Ysbyty Glan Clwyd. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau mamolaeth a phediatrig i gleifion preswyl, llawfeddygaeth gyffredinol annethol, gwasanaethau fasgwlaidd, trawma ac orthopedeg arferol. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd ar beth yn union fydd yn cael ei gyflwyno ymhle a'r potensial i gyflawni rhai gwasanaethau arbenigol (e.e. gwasanaethau fasgwlaidd, gynaeoleg brys a gynaeoleg dethol mawr) o lai o safleoedd/yn amodol ar drefniadau rhwydwaith
- bydd nifer o "ysbytai canolbwynt" yn cael eu hadnabod a fydd yn ganolbwynt i ystod ehangach o wasanaethau – cynigir mai YGC ac Ysbyty Dinbych yn Sir Ddinbych fydd y rhain.
- Bydd Gwasanaethau Mân Anafiadau'n cael eu darparu ar sail both ac adain o ysbytai canolbwynt – bydd y gwasanaeth hwn yn cau yn Rhuthun.
- Bydd gwasanaethau pelydr-x yn cael eu darparu o ysbytai canolbwynt – bydd y gwasanaeth hwn yn cau yn Rhuthun
- bydd ysbytai canolbwynt yn cael eu cefnogi gan ysbytai cymunedol eraill, safleoedd cymunedol a chyfleusterau gofal sylfaenol – gan gynnwys Ysbyty Cymuned y Rhyl – a fydd yn parhau i ddarparu gwelyau i gleifion preswyl.
- yng Ngogledd Sir Ddinbych, bydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ysbyty Brenhinol Alexandra ac Ysbyty Cymuned Prestatyn yn cael eu disodli gan gyfleuster cymunedol integredig newydd - a fydd yn cynnwys gwelyau i gleifion preswyl. Yn y pen draw, bydd y cyfleuster hwn yn ymgorffori gwasanaethau cleifion preswyl i bobl hŷn gydag anghenion iechyd meddwl - a ddarperir yng Nglantraeth, Ablett ac YGC ar hyn o bryd.
- bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Cymuned Llangollen ar hyn o bryd yn cael eu disodli gan ganolfan adnoddau gofal sylfaenol estynedig newydd ar safle River Lodge, yn ogystal â defnyddio Ysbyty Cymuned y Waun, cyflwyno'r Gwasanaeth Gofal Iefel Uwch a'r defnydd posibl o welyau yng nghartrefi nyrsio'r sector annibynnol

Mae aelodau a swyddogion y cyngor wedi cymryd rhan yn y prosesau sy'n arwain at y cynigion hyn yn y rhan fwyaf o achosion. Barn gyffredin yw cefnogi'r egwyddorion ond eisiau gweld manylder.

4.10 Cyfarfu Gweithgor o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau 3 gwaith dros yr haf i graffu'r cynigion a'u bwydo i ymateb y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys ceisio safbwyntiau ystod eang o aelodau a swyddogion er mwyn asesu'r effaith ar drigolion ac ar y cyngor. Mae'r ymateb drafft a ddatblygwyd ganddynt ynghlwm yn Atodiad II.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gweithio'n agos ac yn integredig gyda'r gwasanaethau iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd lleol, yn ffurfio rhan allweddol o waith y Cyngor i ymateb i newid demograffig. Mae'r Cynllun MAWR hefyd yn gosod amcanion ar gyfer cydweithio effeithiol i gefnogi teuluoedd.

6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Gosodir y costau potensial i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mharagraff 4.7 uchod. Mae dadfuddsoddi o hen batrwm gwasanaethau, ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau newydd a delio â diffyg gwaelodol yn heriau mawr i'r Bwrdd Iechyd. Ceir risg yn y broses newid, yn enwedig wrth i wasanaethau drosglwyddo i gymunedau y bydd y cynnydd mewn costau'n trosglwyddo i awdurdodau lleol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol oedolion, ond gallai fod goblygiadau i ddarpariaeth cludiant hefyd.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gyflawnwyd gwaith Sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynnal gwaith sgrinio asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar eu cynigion a bydd yn gwneud gwaith pellach cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Bwrdd. Mae'r Gweithgor Craffu Partneriaethau a'r swyddogion wedi cyfrannu at yr ymateb drafft. Bydd cyfarfodydd clystyrau MAGs a Chynghorau Tref a Chymuned hefyd yn ystyried y cynigion yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid yw'r newidiadau a gynigir wedi'u costio'n llawn ar hyn o bryd felly nid yw'r goblygiad ar wasanaethau'r cyngor yn glir. Mae angen ystyried materion fel cludiant a cheir risg, wrth i wasanaethau gael eu darparu mwy yn y gymuned, y bydd y costau cymunedol ychwanegol yn cwmpo'n anochel ar dimau gofal cymdeithasol y Cyngor.

Dechreuodd Prifysgol Betsi Cadwaladr y flwyddyn ariannol gyda diffyg o £82m wedi'i ragweld ar ei chyllideb. Er gwaethaf cyfraniad unigryw o £17m gan Lywodraeth Cymru a defnyddio cynlluniau wrth gefn, ni fu eto'n gallu cyflawni ei thargedau o ran arbedion.

Bydd y cynigion hyn yn gweld y costau tymor byr yn codi gan £15m gyda thybiaeth y bydd yr arbedion yn cael eu cyflwyno wrth fynd ymlaen. Hyd yn oed yn y senario achos gorau yn yr ymgynghoriad, bydd y sefydliad yn parhau i feddu ar ddiffyg sylweddol.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni eu gwneud i'w lleihau?

Cyfeirir at y risgiau allweddol ym mharagraff 6 uchod ac ar hyd yr ymateb drafft yn Atodiad II. Mae'r camau allweddol i liniaru'r risgiau a nodwyd ar gyfer cynlluniau gweithredu manwl gyda chostau. Bydd y rhain yn cael eu llunio ar gyfer y newidiadau a gynigiwyd. Byddai hyn yn galluogi i'r effaith fod yn dryloyw ac yn galluogi ar gyfer trafodaeth a chyd-drafodaeth lawn gyda'r awdurdod lleol o ran sut, ble mae'r rhyngwyneb gyda chyfrifoldebau'r Cyngor, sut gellir trefnu ac ariannu patrwm newydd y gwasanaethau.

10. Y Grym i wneud y Penderfyniad

A111 Deddf Llywodraeth Leol 1972